**Y PWYLLGOR CRAFFU AR WAITH Y PRIF WEINIDOG**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG**

## Y Cyd-destun

1. Mae fy nhymor fel Prif Weinidog wedi ymestyn dros dri thymor Llywodraeth, a hynny mewn cefndir o ddirwasgiad a chyni. Pan ymgymerais â’r swydd ar 10 Rhagfyr 2009, roedd y wasgfa gredyd eisoes wedi arwain at ddirwasgiad byd-eang, a chafwyd cyfres o benderfyniadau cyllidebol gan Lywodraeth y DU a nododd gychwyn bron i ddegawd o gyni a chyllidebau'n syrthio mewn termau real.

2. Mae cyni wedi taro pobl Cymru’n galed ac wedi effeithio ar Lywodraeth Cymru mewn dwy ffordd. Mae wedi cyfyngu ar ein hopsiynau ar gyfer diwallu anghenion pobl ac wedi'n gadael yn agored i niwed yn sgil effaith toriadau Llywodraeth y DU i gyllidebau mewn meysydd heb eu datganoli – yn fwyaf amlwg wrth ddiwygio lles. Dydy Llywodraethu ddim yn beth hawdd. Ond mae effaith gronnol y cyni wedi golygu nad ydym wedi cael digon o adnoddau i wneud yr holl bethau y byddem yn dymuno eu gwneud, a hynny ar adeg pan fo lefel yr angen wedi cynyddu ar draws Cymru yn sgil rhesymau y tu hwnt i'n rheolaeth.

3. Cynhaliwyd y Refferendwm ynghylch aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016, gan arwain at ganlyniad na allai llawer ohonom fod wedi ei ragweld ar y pryd. Rwyf wedi gweithredu i sicrhau ymateb cryf i Brexit gan Lywodraeth Cymru, gan warchod ein buddiannau wrth negodi â Llywodraeth y DU, a helpu busnesau yng Nghymru i fod yn barod ar gyfer ymadawiad y DU â’r UE. Ond rwyf wedi gwrthod gadael i gyni na Brexit ddiffinio fy nghyfnod fel Prif Weinidog. Rwyf wedi bod yn benderfynol o gynnal y momentwm er mwyn gwella gwasanaethau a darparu’r cymorth y mae pobl ar hyd a lled Cymru yn dibynnu arnynt.

4. Rwy’n credu bod y naw mlynedd diwethaf wedi bod yn rhai o gynnydd parhaus, fel y nodir isod.

5. Yn 2011 pleidleisiodd pobl Cymru yn bendant dros bwerau deddfu llawn, gan gadarnhau mai datganoli yw ewyllys gadarn y bobl erbyn hyn. Rydym wedi defnyddio’r pwerau hyn ac wedi arwain y DU a'r byd â'n deddfwriaeth arloesol sydd wedi’i chynllunio i wella bywydau pawb yng Nghymru.

6. Ym mis Ebrill 2018 cyflwynwyd y trethi Cymreig cyntaf ers bron i 800 mlynedd – cam pwysig arall yn esblygiad Llywodraeth Cymru. Rydym bellach yn gyfrifol am gasglu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Dreth Trafodiadau Tir – ac o fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd 1.3m o drethdalwyr sy'n byw yng Nghymru yn talu cyfraddau treth incwm Cymru. Rydym yn edrych ar sut y gall y pwerau trethu newydd hyn ategu ein hamrywiol ysgogiadau polisi, gyda chynigion am dreth ar dir gwag, ardoll gofal cymdeithasol, treth ar dwristiaeth a mesurau i annog pobl i beidio â defnyddio plastig untro.

## Degawd o Gyflawni

7. Rwyf wedi bod yn Brif Weinidog ar dair gweinyddiaeth, ac rydym wedi cyflawni ein hymrwymiadau yn gyson – o raglen glymbleidiol Cymru'n Un, drwy ymrwymiadau 'Pump am Ddyfodol Tecach' a Rhaglen Lywodraethu 2011, nes cyrraedd y strategaeth genedlaethol bresennol, *Ffyniant i Bawb.*

8. Llwyddwyd i gyflawni pob un o ymrwymiadau 'Pump am Ddyfodol Tecach', gyda 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ar ein strydoedd, dyblu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg, oriau agor hirach i feddygfeydd, Twf Swyddi Cymru yn rhagori ar dargedau, a gwariant ar ysgolion yn tyfu yn ystod pum mlynedd y tymor hwnnw.

9. Yn ddiweddar, adroddwyd ar gynnydd *Ffyniant i Bawb,* ac ar ôl dwy flynedd o'r weinyddiaeth hon rydym ar y trywydd iawn. Rydym wedi cyflawni nifer o ymrwymiadau, gan gynnwys torri trethi busnesau bach ar draws Cymru drwy ein cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr. Cyflwynwyd Cronfa Triniaethau Newydd gwerth £80m, sydd wedi darparu mynediad cyflymach at 137 o feddyginiaethau newydd ar gyfer ystod o gyflyrau.

10. Rydym ar y trywydd iawn gyda'n hymrwymiadau eraill. Rydym wedi codi'r swm y gall pobl ei gadw cyn gorfod talu cost lawn eu gofal preswyl i £40,000, ac wedi cynyddu nifer y mannau lle gall rhieni sy'n gweithio gael 30 awr o ofal plant yn rhad ac am ddim i'w plant 3 a 4 oed, gyda dros hanner yr awdurdodau lleol bellach yn rhan o'n cynlluniau peilot. Rydym yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r rhaglen 100,000 o brentisiaethau i bobl o bob oed, gydag 16,000 yn dechrau yn hanner cyntaf 2017/18, ac rydym ar y trywydd iawn i fuddsoddi £100m ar wella perfformiad ein hysgolion, law yn llaw â'n diwygiadau strwythurol i'r cwricwlwm.

11. Rwyf wedi gwneud ymrwymiad personol i roi diwedd ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc o fewn degawd, gyda chymorth £10m o fuddsoddiad ychwanegol y flwyddyn nesaf. Rydym wedi pasio deddfwriaeth sydd wedi helpu i atal 18,000 o aelwydydd Cymru rhag dod yn ddigartref ers 2014, ac wedi cyhoeddi'r *Cynllun Gweithredu ar Gysgu Allan* er mwyn dod o hyd i ffyrdd dyfeisgar gyda'n gilydd o helpu unigolion i adael y stryd.

12. Roeddwn yn falch iawn o gyhoeddi fy mod am i hon fod yn Llywodraeth Ffeministaidd. Llwyddwyd i wneud cynnydd da mewn rhai meysydd o gydraddoldeb rhwng y rhywiau, gyda'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn lleihau'n sylweddol ers 2009. Ond mae angen gwneud mwy. Rydym yn cydnabod bod menywod a merched sy'n dioddef amrywiol wahanol fathau o gamwahaniaethu, sydd o bosibl yn gorgyffwrdd, yn aml yn cael eu heithrio rhag y cynnydd ehangach. Mewn ymateb, comisiynwyd Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol i ddatblygu cynllun i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru. Roedd yn bleser derbyn cam cyntaf yr adolygiad a oedd yn nodi'r hyn rydym eisoes yn ei wneud yn dda, sut y gallwn wella, ac enghreifftiau gan Lywodraethau ar draws y byd.

## Ffyniannus a Diogel

13. Ein nod yw galluogi pobl i wireddu eu huchelgeisiau drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy, a chreu amgylchedd cywir i fusnesau dyfu a ffynnu ynddo.

### *Effaith*

14. Mae'r economi a'r farchnad lafur yng Nghymru wedi perfformio'n dda ers 2009. Er iddi gymryd amser i'r DU adfer o'r dirwasgiad ac effeithiau negyddol polisïau'r DU, rydym wedi gweld gwelliannau pwysig, gan gynnwys meysydd lle'r ydym wedi perfformio'n well na gweddill y DU.

15. Mae ein cyfradd gyflogaeth ar hyn o bryd yn uwch nag ar unrhyw adeg ers dechrau cadw cofnodion cymaradwy, gyda'r bwlch rhwng Cymru a'r DU yn lleihau ers 2009. Am y tro cyntaf erioed yn y cyfnod hyd at fis Awst 2018, roedd y gyfradd gyflogaeth yn uwch yng Nghymru nag oedd yn yr Alban. Yn yr un modd, mae lefel y diweithdra yng Nghymru wedi gostwng bron i draean ers 2009 ac wedi cyrraedd 3.8 y cant. Dyma'r lefel isaf a welwyd ers dechrau llunio cofnodion cymaradwy ac mae hefyd yn is na chyfradd y DU o 4.0 y cant.

16. Mae lefel uchel o anweithgarwch economaidd yn bodoli ers tro yng Nghymru. Yn ddiweddar, mae anweithgarwch yng Nghymru wedi bod yn is na'r lefelau mewn sawl man arall o'r DU, neu'n debyg iddynt. Mae gwerth ychwanegol gros y pen yng Nghymru wedi gwella o'i gymharu â'r DU dros y cyfnod ers 2009, gan gynyddu 1.8 o bwyntiau canran. Y cynnydd hwn yw'r trydydd gorau o gymharu â holl wledydd a rhanbarthau'r DU (ar ôl Llundain a Gorllewin Canolbarth Lloegr).

### *Llwyddiannau*

17. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd ein *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* sy'n nodi sut y byddwn yn mynd ati'n arloesol i gryfhau sylfeini'r economi, i baratoi economi Cymru ar gyfer y dyfodol ac i greu'r amodau a fydd yn galluogi pawb i elwa.

18. Erbyn diwedd y weinyddiaeth hon, bydd gennym y ddarpariaeth gofal plant fwyaf hael yn y DU ar gyfer rhieni sy'n gweithio. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod effaith y cynnig gofal plant yn gadarnhaol. Mae'n helpu rhieni'n ariannol ac yn eu galluogi i daro cydbwysedd rhwng gofynion gwaith a bywyd teulu.

19. Bu'n ymrwymiad allweddol i sicrhau bod yr economi yn tyfu, a bod pobl Cymru yn gallu elwa ar y cyfleoedd a rhannu'r ffyniant hwn. Mae ein *Cynllun Cyflogadwyedd* yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i helpu pobl i ddod o hyd i swyddi addas, sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i ddatblygu a chael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl rhag gweithio.

20. Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo Gwaith Teg. Bydd ein Comisiwn Gwaith Teg yn ein cynghori ar y newidiadau y bydd arnom angen eu gwneud i wella amodau gwaith pob gweithiwr yng Nghymru. Rydym eisoes yn gweithio gyda busnesau, drwy ein Contract Economaidd a'n Meysydd Gweithredu i ddarparu swyddi boddhaol, diogel a gwerth chweil.

21. Rydym yn symleiddio'r ffrydiau cyllido sydd ar gael i helpu busnesau ac yn hoelio sylw ar dri sector thematig. Mae hyn yn ychwanegu at ein hanes hir o gefnogi diwydiannau craidd yng Nghymru yn ogystal â chefnogi busnesau'r dyfodol.

22. Gan gydnabod pwysigrwydd y diwydiant dur a busnesau sy'n ymwneud â dur i Gymru, rydym wedi cefnogi'r sector i'w helpu i fod yn gynaliadwy. Mae cynyddu lefel yr ymchwil a datblygu a ymgymerir gan y sector dur yng Nghymru yn hanfodol er mwyn sicrhau ei ddyfodol ac ym mis Chwefror 2018, lansiwyd y Ganolfan Dur a Metelau newydd i atgyfnerthu ein gallu i gynnal ymchwil yn y maes hwn.

23. Ym mis Chwefror 2016, croesawyd Aston Martin i Gymru, gan greu mwy na 750 o swyddi crefftus, gyda 1,000 pellach o swyddi yn cael eu creu ar draws y gadwyn gyflenwi.

24. Lansiwyd Banc Datblygu cyntaf y DU gennym, sef Banc Datblygu newydd Cymru ym mis Hydref 2017, i'w gwneud yn haws i fusnesau gael gafael ar y cyfalaf y mae ei angen arnynt i gychwyn busnes, i gryfhau ac i dyfu. Mae wedi cynyddu'r lefelau buddsoddi yn sylweddol, ac wedi lansio sawl cronfa newydd sy'n gyfanswm o ryw £233m, gan gynnwys Cronfa Buddsoddi Hyblyg a Chronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru.

25. Mae datgarboneiddio yn un o'r meysydd gweithredu a nodir yn y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* ac fe'i mabwysiadwyd gan y Llywodraeth fel maes sy'n cael blaenoriaeth. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu'r economi yn gynaliadwy ac i achub ar bob cyfle economaidd sy'n gysylltiedig â hynny.

26. Perfformiad ailgylchu Cymru yw un o'n llwyddiannau ers datganoli. Gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, a diolch i fuddsoddiad ar y cyd o £750m mewn cyfleusterau trin bwyd a gwastraff gweddilliol, ailgylchwyd 63 y cant o wastraff cartref yn 2017-18. Ni yw'r wlad orau yn y DU, a'r drydedd wlad orau yn y byd am ailgylchu.

27. Rydym yn gwneud ein rhan i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a diogelu'r amgylchedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghanran y trydan a gynhyrchwyd gan ffynonellau adnewyddadwy, gan gynyddu o 16 y cant o ddefnydd trydan Cymru yn 2009 i 43 y cant yn 2016. Mae ein cynlluniau Arbed a Nyth wedi sicrhau bod ynni'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon mewn 27,000 o gartrefi ers 2012.

**Iach ac Egnïol**

28. Rydym yn gwella iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru drwy newid y pwyslais o drin cyflyrau i'w hatal.

***Effaith***

29. Rydym yn buddsoddi mwy mewn iechyd nag erioed o'r blaen ac yn sicrhau bod triniaethau sydd ar flaen y gad o fewn cyrraedd mwy o bobl. Yn 2016-17, gwariwyd 8 y cant yn fwy fesul person ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd yng Nghymru nag yn Lloegr, gan roi'r driniaeth gywir i gleifion, ar yr adeg gywir ac yn y lleoliad cywir. Rydym yn gwario mwy na 14 y cant y person yn fwy ar iechyd a gofal cymdeithasol o'i gymharu â 2009-10.

30. Mae eich gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu mwy o alw nag erioed o'r blaen. Y llynedd, gwnaeth ein hadrannau brys drin miliwn o gleifion, sef y nifer uchaf erioed. Er gwaetha'r pwysau hyn rydym wedi cadw a gwella'r lefelau o driniaeth y mae pobl yn ei chael. Y llynedd cafodd mwy o bobl eu gweld o fewn y targed 4 awr nag ers 4 blynedd, er gwaetha'r pwysau difrifol a'r galw cynyddol. Y llynedd cafodd 19,000 yn fwy o bobl eu trin a'u rhyddhau o'n hysbytai o fewn y targed 4 awr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

31. Mae mwy o bobl yn dechrau ar y driniaeth sydd ei hangen arnynt o fewn yr amser targed. Ym mis Gorffennaf 2018, roedd dros 90 y cant o gleifion wedi bod yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth, y nifer uchaf ers 5 mlynedd.

32. Mae'r cyfraddau goroesi canser yn parhau i gynyddu yng Nghymru ac mae nifer y marwolaethau cyn pryd o ganser ymhlith pobl o dan 75 oed wedi lleihau 21.4 y cant ers 2001. Gwnaeth y gwelliant mewn perfformiad ar gyfer achosion brys lle ceir amheuaeth o ganser, o 80.5 y cant ym mis Ebrill 2013 i 88.7 y cant ym mis Mawrth 2018, gyfrannu at hyn. Dyma welliant amlwg gyda 8 y cant yn fwy o bobl yn dechrau ar driniaeth ddiffiniol o fewn y targed amser o 62 o ddiwrnodau.

33. Mae ein model ymateb clinigol ar gyfer ambiwlans Cymru wedi'n rhoi ni ar flaen y gad ar y llwyfan rhyngwladol. Mae gwasanaethau ambiwlans yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Awstralia a Chanada bellach yn defnyddio'r model ymateb clinigol a gafodd ei arloesi yng Nghymru. Rydym yn ariannu rhaglen gwerth £60m dros y tair blynedd nesaf i ddiweddaru'r fflyd ambiwlansys gyda modelau, modern carbon isel, sy'n cynnig perfformiad gwell o ran allyriadau ac yn lleihau costau tanwydd a chynnal a chadw.

***Llwyddiannau***

34. Rydym wedi parhau i ddarparu'r cyllid ar gyfer presgripsiynau am ddim, gan chwalu'r rhwystrau o ran triniaeth i bobl sydd ag anhwylderau hirdymor a helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

35. Mae lefelau staffio'r GIG wedi cyrraedd lefelau uwch nag erioed gyda dros 90,000 o staff, gan gynnwys ymgynghorwyr, bydwragedd, nyrsys ac ymwelwyr iechyd. Yn dilyn lansio'r ymgyrch Hyfforddi, Gweithio, Byw, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y lleoedd hyfforddi yng Nghymru i feddygon teulu sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig lle mae wedi bod yn anodd llenwi swyddi yn y gorffennol.

36. Mae atal ac ymyrryd yn gynnar wedi bod wrth wraidd ein hymgyrchoedd ar gyfer iechyd y cyhoedd, a thrwy'r ymgyrchoedd hyn rydym yn annog pobl i fyw bywydau iachach a mwy egnïol. Mae'r gwaith yn amlwg wedi dwyn ffrwyth, gyda lleihad yn nifer y merched sy'n beichiogi yn eu harddegau, lefelau smygu a'r defnydd o alcohol yn gyffredinol.

37. Mae'r heriau sy'n wynebu'r GIG wedi cael llawer o sylw, ac ar y cyd â chyflawni gwasanaethau effeithiol heddiw, rydym yn cynllunio system iechyd a gofal cymdeithasol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Yn gynharach eleni, drwy gydweithio â phartneriaid ar draws y system, datblygom weledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol. Glasbrint ar gyfer system lle mae cymorth a thriniaeth ar gael ar draws ystod o wasanaethau yn y gymuned, gan sicrhau ar yr un pryd fod modd i bobl gael gofal yn yr ysbyty yn gyflymach pan fo'i angen, yw *Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.* Bydd ein Cronfa Trawsnewid sydd werth £100m yn cefnogi'r gwaith hwn o ddiwygio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

38. Mae hyn yn adeiladu ar ein gwaith dros y ddegawd ddiwethaf i ddatblygu un system o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein Cronfa Gofal Canolraddol wedi helpu i chwalu'r rhwystrau rhwng iechyd, tai, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod pobl hŷn a bregus yn gallu bod yn annibynnol ac yn cael eu cadw allan o'r ysbyty. Rydym wedi buddsoddi degau o filiynau o bunnoedd mewn prosiectau sydd wedi sicrhau gwelliant mewn gofal ac wedi caniatáu i bobl naill ai aros yn eu cartrefi neu i gael eu rhyddhau o'r ysbyty mor gyflym â phosibl, ac mae'r ffaith bod gostyngiad hirdymor wedi digwydd yn yr oedi wrth drosglwyddo gofal yn dangos hynny'n glir.

**39.** Rydym wedi buddsoddi £1.6bn i ddatblygu a chynnal a chadw ystad GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu Ysbyty Plant Arch Noa, Uned Aciwt i Oedolion yn Llandochau, y gwelliannau sydd ar y gweill yn Ysbyty Glan Clwyd a cham 1b Ysbyty Treforys.

## Uchelgeisiol ac yn Dysgu

40. Rydym yn ysgogi ymroddiad i ddysgu ym mhawb, a hynny o'r oedran cynharaf posibl. Y nod yw eu hysbrydoli i barhau i ddysgu a datblygu drwy gydol eu bywydau.

### *Effaith*

41. Yn 2016-17, roedd gwariant cyhoeddus, fesul person, ar addysg 3 y cant yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr – cynnydd o 2 y cant yng Nghymru dros y bum mlynedd flaenorol, o'i gymharu â dim cynnydd yn Lloegr.

42. Rydym wedi gweld gwelliant cyson o ran cyrhaeddiad addysgol. Hyd at 2016, gwelwyd gwelliant graddol o ran canran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r trothwy L2 cynhwysol (Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg) i fyny o 47 y cant yn 2009 i 60 y cant yn 2016. Ar ôl i'r diffiniad gael ei newid, gwelwyd yn y data cychwynnol gynnydd o 0.5 pwynt canran ar gyfer 2018 o'i gymharu â 2017.

43. Y gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer gweithgareddau dysgu Addysg Bellach yn 2016/17 oedd 87 y cant, i fyny o 81 y cant yn 2009/10. Cyfradd lwyddo'r Fframwaith Prentisiaethau oedd 81 y cant, o'i gymharu â 80 y cant yn 2009/10.

44. Mae ein diwygiadau'n cael effaith eang. Gostyngodd cyfran yr oedolion nad oes ganddynt gymwysterau o 15 y cant ym mis Rhagfyr 2009 i 9 y cant ym mis Rhagfyr 2017. Mae cyfran yr oedolion sydd â chymhwyster lefel Addysg Uwch neu uwch (lefel 4) wedi cynyddu o 29 y cant i 37 y cant dros yr un cyfnod.

45. Eleni, mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi cwympo o dan 10 y cant am y tro cyntaf mewn degawd. Bydd hyn yn helpu mwy o bobl ifanc i wneud cam cadarnhaol tuag at waith neu hyfforddiant.

### *Cyflawniadau*

46. Rydym yn parhau i fuddsoddi i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant drwy raglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Phlant Iach Cymru. Rydym yn buddsoddi £60m ychwanegol dros dair blynedd i ddatblygu lleoliadau gofal plant newydd ledled Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i ofal plant a'r Cyfnod Sylfaen gael eu darparu ar yr un safle mewn mwy o lefydd, yn ogystal ag adnewyddu lleoliadau presennol eraill i gefnogi gofal plant o'r safon uchaf posibl.

47. Rydym wedi gwneud gwariant ar ysgolion yn flaenoriaeth yn ystod y blynyddoedd o gyni, a hynny er mwyn sicrhau y gall ysgolion gyflawni eu rolau hanfodol, o ran addysg ac o ran eu cymunedau. Rydym wedi cydnabod bod angen mwy o gymorth ar rai disgyblion nag eraill i gyrraedd eu potensial. Ers ei gychwyn yn 2012, mae'r Grant Datblygu Disgyblion wedi cefnogi mwy na 450,000 o ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Rydym yn buddsoddi mwy nag erioed o'r blaen – mwy na £187m y

flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf – i gefnogi ein hysgolion i wella deilliannau dysgwyr difreintiedig.

48. Rydym yn buddsoddi mwy na £3.7bn yn yr ystad addysg yng Nghymru fel rhan o'n rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Dyma'r buddsoddiad mwyaf mewn ysgolion ers 1960au ac mae 100 o brosiectau wedi'u cwblhau eisoes. Mae 63 ysgol arall yn cael eu hadeiladu neu eu gwella hefyd, sy'n awgrymu y bydd y rhaglen yn cyflawni ei thargedau, a mwy.

49. Rwy'n falch iawn ein bod wedi darparu'r pecyn ariannol mwyaf hael ar gyfer myfyrwyr yn y Deyrnas Unedig gyfan. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i bobl ifanc ac oedolion sydd am barhau ag addysg bellach, neu ddychwelyd iddi. Ers 2015, mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed wedi cefnogi tua 75,000 o fyfyrwyr o aelwydydd incwm is i barhau â'u haddysg.

50. Rhwng 2011 a 2016, bu inni lynu at ein hymrwymiad na ddylai unrhyw fyfyriwr addysg uwch llawn amser o Gymru dalu mwy am ei radd mewn termau real na phe bai wedi bod yn fyfyriwr yn 2010/11. Golyga hyn, dros y cyfnod hwnnw, fod myfyrwyr o Gymru wedi osgoi tua £245m o ddyled. Ers hynny, rydym wedi diwygio'n pecyn cymorth ar gyfer myfyrwyr yn sylweddol. Yn awr, mae myfyrwyr o Gymru yn derbyn cymorth ar gyfer costau byw sy'n gyfwerth â'r cyflog byw cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig.

## <u>Unedig a Chysylltiedig</u>

51. Rydym yn meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd.

### *Yr effaith*

52. Rydym yn meithrin cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth. Mae 85 y cant o bobl yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Mae tri chwarter oedolion Cymru yn cymryd rhan yn y celfyddydau neu'n gynulleidfa iddynt yn rheolaidd, ac mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan ac sy'n gynulleidfa wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar.

53. Rydym wedi darparu seilwaith modern a chysylltiedig, ac wedi llwyddo i wneud hynny er gwaetha'r ffaith y bydd cyllideb gyfalaf Cymru yn 2019-20 10 y cant neu £200m yn llai, mewn termau real, o'i gymharu â 2010-11. Ers cyhoeddi Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2012 rydym wedi buddsoddi £9bn o gyllid cyfalaf.

54. Rydym wedi cymryd camau sylweddol ymlaen ym maes tai. Roedd dros 90 y cant o bobl Cymru yn hapus â'u llety yn 2017-18. Rhwng 2009-10 a 2017-18, darparwyd 21,226 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru.

55. Yn ôl Ofcom, mae band eang cyflym iawn ar gael i gyfran fwy o'r boblogaeth yng Nghymru na'r un o'r gwledydd datganoledig eraill.

56. Cynorthwywyd i ddiogelu marchnadoedd a oedd eisoes yn bodoli, i ddatblygu rhwydweithiau ac i fynd ar drywydd cyfleoedd newydd o ran masnach a buddsoddiad, gan hyrwyddo Cymru ledled y byd. Mae gwerth allforion Cymru yn parhau i gynyddu, ac roedd £0.7bn yn uwch ym mis Mehefin 2018 nag yr oedd flwyddyn ynghynt.

### *Llwyddiannau*

57. Er bod mesurau cyni'n parhau, rydym wedi buddsoddi er mwyn gofalu bod pob rhan o Gymru wedi'i chysylltu'n dda a bod pobl yn gallu teithio ar gyfer gwaith a gweithgareddau hamdden. Buddsoddwyd £1.8bn mewn cynlluniau trafnidiaeth ar hyd a lled Cymru i wella cysylltedd a rhoi hwb i weithgarwch economaidd. Rydym wedi troi ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol ac wedi gwella coridor yr A55, ac rydym yn adeiladu ffordd osgoi'r Drenewydd.

58. Rydym wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y fasnachfraint rheilffyrdd yng Nghymru, sy'n ein galluogi i fynd i'r afael â'r tanfuddsoddi hanesyddol. Dyfarnwyd contract gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, sy'n werth £15bn, am gyfnod o 15 mlynedd, ac mae hyn yn ein galluogi i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ddiogel, hygyrch, fforddiadwy ac o ansawdd uchel. Mae hefyd yn agor y drws inni ddarparu Metro De Cymru a chynllunio Metro Gogledd Cymru.

59. Rydym wedi sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn tyfu fel porth i dde Cymru o weddill y byd. Ers ei brynu yn 2013, mae'r maes awyr wedi dod yn un o'r meysydd awyr rhanbarthol sy'n ehangu gyflymaf yn y DU. Mae 1.5m o bobl y flwyddyn yn teithio trwyddo erbyn hyn. Mae ganddo dros 50 o lwybrau hedfan uniongyrchol a gellir cysylltu o'r rheiny â mwy na 900 o gyrchfannau ledled y byd. Eleni, cyhoeddodd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Uwchgynllun ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf, gan adeiladu ar y cynnydd o 9 y cant yn nifer y teithwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

60. Rydym wedi sicrhau buddsoddiad o £185m ym mand eang y genhedlaeth nesaf. Mae cynllun Cyflymu Cymru wedi sicrhau bod cysylltiadau ffeibr optig ar gael yn ardal pob awdurdod lleol gan olygu bod band eang ffeibr cyflym iawn ar gael i bron 733,000 eiddo ledled Cymru. Mae band eang cyflym iawn ar gael i fwy na dwywaith y gyfran o'r boblogaeth heddiw ag yn 2013.

61. Rydym yn gosod y sylfeini i gynorthwyo i wireddu ein gweledigaeth o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg: Cymraeg 2050, ac rydym wedi dyfarnu £4.2m i 77 o sefydliadau ledled Cymru i hybu'r Gymraeg fel iaith fyw a llewyrchus.

62. Rydym bob amser wedi bod yn ymroddedig i weld Cymru'n cymryd ei lle yn y gymuned ryngwladol. Mae hyn yn bwysicach fyth wrth inni ystyried sut beth fydd dyfodol y tu allan

i'r Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi dadlau ein hachos yn llwyddiannus â Llywodraeth y DU, gan sicrhau newidiadau arwyddocaol i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a diogelu ein setliad datganoli. Rydym yn cefnogi rhanddeiliad trwy gyfrwng Cronfa Bontio'r UE wrth iddynt baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac yn nodi cyfleoedd i Gymru barhau â'i pherthynas gadarnhaol ag Ewrop.

63. Rydym wedi ehangu ein rhwydwaith o swyddfeydd rhyngwladol yn ein marchnadoedd mwyaf, o safbwynt allforion o Gymru a buddsoddiad yng Nghymru, ac yn y marchnadoedd sy'n tyfu. Mae gennym swyddfeydd newydd ym Montreal, Berlin a Doha, a bydd swyddfeydd yn agor ym Mharis a Dusseldorf yn fuan.

64. Rydym yn gweld effaith ein camau gweithredu. Mae allforion yn parhau i dyfu ac mae Cymru bellach yn gartref i dros 1,100 o gwmnïau o dramor a buddsoddiadau gan gwmnïau tramor megis Aston Martin Lagonda, Sony, GE Aircraft, General Dynamics a MotoNovo Finance. Er 2010 mae'r cwmnïau hyn wedi cynorthwyo i gyfrannu tuag at greu mwy na 26,000 o swyddi newydd ledled Cymru, a diogelwyd mwy na 31,000 o swyddi ychwanegol hefyd yn ystod y cyfnod hwn.

65. Yn rhan o'r prosiect Cymru o Blaid Affrica, plannais goeden rhif miliwn ar gyfer y prosiect Maint Cymru i blannu miliwn o goed yn Uganda, â'r nod o leihau effaith newid yn yr hinsawdd a datgoedwigo. Cyhoeddais hefyd darged newydd o ddeg miliwn o goed, ac rydym ar y trywydd i gyflawni'r targed hwnnw gyda'n partneriaid yn Uganda a Maint Cymru.

66. Mae Cymru wedi bod yn gartref i ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol sydd wedi codi ein proffil ar lwyfan byd-eang. Yn 2010 denodd Cwpan Ryder 77,000 o ymwelwyr gan gynhyrchu effaith economaidd uniongyrchol gwerth £54m. Cynhaliwyd Cwpan Rygbi'r Byd yma gan ddenu 500,000 o ymwelwyr a chynhyrchu effaith economaidd uniongyrchol gwerth £82m. Yn 2016 denodd Pencampwriaeth Hanner Marathon y Byd yng Nghaerdydd 20,000 o ymwelwyr a chynhyrchu effaith economaidd uniongyrchol gwerth £3.9m. Yn 2017 cynhaliwyd rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn llwyddiannus yng Nghymru, gan ddenu 92,000 o ymwelwyr a chynhyrchu effaith economaidd uniongyrchol gwerth £40m.

## Creu Ffyniant i Bawb

67. Mae fy llywodraeth wedi parhau i ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddi i greu ffyniant i bawb, a gadael neb ar ôl. Rydym wedi parhau'n ffyddlon i'n gwerthoedd o gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, a rhoi anghenion a buddiannau pobl Cymru wrth wraidd popeth a wnawn.

68. Mae wedi bod yn fraint cael gwasanaethu fel Prif Weinidog Cymru yn ystod y naw mlynedd ddiwethaf. Rwy'n falch o'r hyn y mae fy ngweinyddiaeth wedi'i gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Mae llawer i'w wneud o hyd a bydd heriau sylweddol i'w hwynebu, ond rwy'n gwbl ffyddiog y bydd fy olynydd yn cydio yn yr her ac yn symud Cymru ymlaen o dan arweinyddiaeth newydd.

**Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC**

**Prif Weinidog Cymru**